

Datganiad Sefyllfa ar Newid Hinsawdd ac Adfer Natur

Dr Paul Sinnadurai FCIEEM

Dyddiad cymeradwywyd gan APCBB: Rhagfyr 10 2019

Dyddiad ar gyfer adolygiad Rhagfyr 10 2021

Y Ystyriaeth

Yr ydym ni, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn cytuno na ellir gwadu fod y dystiolaeth dros gynhesu byd eang a achosir gan bobl yn arwain at newid hinsawdd¹. Rhaid i'r byd ymateb i effeithiau newid hinsawdd, a ddatguddir yn fwyaf amlwg drwy batrymau tywydd newidiol ac amrywiaethau tymhorol, gan orfodi natur i addasu, cyfyngu ar gyflenwadau dŵr, gan gael effaith groes ar iechyd pobl ac anifeiliaid a chynladwyedd a gwytnwch bywyd cefn gwlad.

Y Dystiolaeth

Rydym yn mynnu gweithredu mewn ymateb i:

- **Adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd DU 2019²** ar gyrraedd net sero o ran allyriadau yn yr uchelgais i gyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a achosir gan bobl, i lefelau a fydd yn cyfyngu cyfartaledd tymheredd blynyddol y Ddaear (tir a môr) i 1.5°C yn uwch na lefelau 1990
- **Adroddiad Rhynglywodraethol ar Blatfform Polisi Gwyddoniaeth ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau³ (Mai 2019)**, ar yr angen i gyflawni newid buan a thrawsnewidiol i economi byd-eang a lleol a diwyllianau i wrthdroi'r dirywiad catastroffig mewn natur, â llai nag 11 mlynedd gennym er mwyn cyflawni'r gwrthdroad hwn
- **Adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) ar Newid Hinsawdd a Thir** ar yr angen am newidiadau sylweddol i reoli tir ac ymddygiad personol sy'n effeithio ar dir, os yw targedau cyfyngiadau tŷ gwydr am gael eu bodloni.

Rydym yn cymeradwyo datganiad Llywodraeth Cymru ynghylch argyfwng hinsawdd yng Nghymru⁴ ac heriwn Lywodraeth Cymru i ddilyn hyn â gweithredu trawsnewidiol ar draws yr holl sectorau, a hynny'n awr. Safwn ysgwydd wrth ysgwydd er mwyn cyflawni'r newid trawsnewidiol hwn.

Rydym yn cymeradwyo'r 21 sir, bwrdeistref sirol a chynghorau tref yng Nghymru sydd hyd yma wedi datgan argyfwng hinsawdd. Gyda bod gofyniad ar ddigwydd ar i Awdurdodau Parc Cenedlaethol Cymru ymlid rheoli cynaliadwy adnoddau naturiol wrth ymarfer ei swyddogaethau⁵, rydym yn ystyried fod hyn yn gosod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o dan oblygiad tebyg i weithredu; yn ei grynsyth mae angen gweithredoedd arnom nid geiriau yn unig.

Mae'r unigolion, sefydliadau a mudiadau sydd wedi gweithio'n ddiflino i ddod â newid hinsawdd at sylw'r byd yn rhoi hyder i ni. Ein cyfrifoldeb ni yw hyn, nid cyfrifoldeb y genhedlaeth nesaf, i sicrhau ein bod yn aros ar ochr gywir hanes.

Ein dadansoddiad

¹ https://www.ipcc.ch/site/assets/uploads/2018/02/AR5_SYR_FINAL_SPM.pdf

² <https://www.theccc.org.uk/publication/net-zero-technical-report/>

³ https://www.ipbes.net/system/tmf/ipbes_7_10_add-1-advance_0.pdf?file=1&type=node&id=35245

⁴ <https://gov.wales/welsh-government-makes-climate-emergency-declaration>

⁵ <http://bit.do/e8Nd6>

Mae ymateb i effeithiau newid hinsawdd ac i argyfwng natur yr un mor heriol â'i gilydd ac yn lled ryngberthynol. Tra bo bywyd gwyllt wedi esblygu heb ymyrraeth, mae pobl, bellach yn ei gorfodi i addasu mewn byd a dameidiwyd gan ein hecsbloetiaeth o dir, dŵr ac adnoddau naturiol eraill. Mae newid hinsawdd yn gwneud hyn yn waeth, gan adael llai o wagle ac amser i fywyd gwyllt addasu a ffynnu.

Mae yna, fodd bynnag amrywiaeth o weithredoedd sy'n benodol ar gyfer newid hinsawdd ac ar gyfer cyflawni adferiad natur; ni fydd gweithredu ar gyfer y naill argyfwng yn ddigonol i ddatrys y llall. Byddwn yn gweithredu ar y naill a'r llall felly, ar yr un pryd â chryn egni dros gyfnod parhaus.

Rydym yn hyderus y gall y sefydliadau a'r unigolion sy'n byw, gweithio a gweithredu oddi fewn i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wneud cyfraniad pwysig ar y cyd i wella argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth Cymru. Ond er gwaetha'r hyn rydym wedi ei gyflawni hyd yma (Atodiadau) mae'n rhaid i ni wneud rhagor a rhaid i ni weithredu nawr.

Gweithredu sydd ei angen ar gyfer ymateb effeithiol i'r argyfyngau hinsawdd a natur

Mae newid trawsnewidiol yn ofynnol nawr. Mae angen sylweddol a buan arnom ni a'r bobl sy'n byw, gweithio a gweithredu ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gyflawni'r canlynol:

- cynyddu capasiti'r Parc i gadw a storio carbon atmosfferig
- cynyddu capasiti'r tirlun o ran daliad-dŵr (i leddfu prinder dŵr a lleihau'r risg o lifogydd)
- lleihau a dileu gwastraff a llygredd
- mwyhau bywyd sero carbon ac ynni adnewyddadwy i'r eithaf, a
- helpu adferiad natur.

I'r dibenion hyn byddwn:

1. Yn eiriolwyr dros weithredu trawsnewidiol oddi fewn i'r holl sectorau i leddfu'r achosion ac addasu at ganlyniadau cynhesu byd-eang.
2. Esbonio pam fo gweithredu mor bwysig ac mor argyfyngus a'i amddiffyn.
3. Addysgu, hysbysebu a grymuso pobl.
4. Creu enghraifft batrymol ar gyfer sero carbon, isafu gwastraff a llygredd, dileu allyriadau tŷ gwydr sy'n deillio o'r tir, cadwraeth pridd a dŵr, ynni adnewyddadwy ac adferiad natur.
5. Hyrwyddo ffocws cryf ar gyfer y sector rheoli tir - amaethyddiaeth, coedwigaeth rheoli dŵr ac adfer natur - cyflenwi cynhyrchiad bwyd nad yw wedi ei ddwysáu ac a gaiff ei arwain gan y gymuned, adfer cynefin, mwyhau ynni adnewyddadwy ac atal a rheoli llygredd, sy'n gwneud cyfraniad uniongyrchol ac anuniongyrchol i wrthdroi allyriadau tŷ gwydr tra ar yr un pryd bod adferiad ac ehangiad yn cael eu cyflenwi i dir mawnog, coetiroedd a gwlypdiroedd.
6. Hyrwyddo ffocws cryf yn y Parc ar gyfer mwyhau cynhyrchiad ynni adnewyddadwy priodol sydd mewn cytgorod â natur a'r dirwedd.
7. Annog a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol ar gyfer bwyd, diod a gwasanaethau er mwyn isafu cyfraniad y sectorau hyn at wastraff, ôl-troed ecolegol ac allyriadau tŷ gwydr.
8. Hyrwyddo a gwneud defnydd llawn ac effeithiol o'n polisiau cynllunio i isafu allyriadau tŷ gwydr a gwastraff a mwyhau'r gofynion ar gyfer ynni adnewyddadwy, dolenni cyflenwi lleol,

perllannau cymunedol newydd, rhandiroedd a choetiroedd, cadwraeth pridd a dŵr ac adferiad natur.

9. Dadlau ar bob cyfle i gryfhau ein polisiâu cynllunio i wneud y gorau i'r eithaf o'r manteision hyn.
10. Hyrwyddo diogelu ac adferiad mawndiroedd y Parc i atal allyriadau tŷ gwydr pellach, cynyddu posibiliadau atafaeliad carbon a helpu adferiad natur.
11. Bod yn gatalydd i staff, Aelodau, cymunedau, ymwelwyr a busnesau i gyfranogi mewn adfer natur a phrosiectau, rhaglenni a gweithredoedd lleddfu hinsawdd ac addasu, a chynyddu ar eu gweithredoedd.
12. Bod yn gatalydd i staff ac Aelodau gyflawni'r pontio diwylliannol ac o ran ffordd o fyw sy'n ofynnol er mwyn bod yn arweinwyr dros weithredu yn erbyn newid hinsawdd a chodi ymwybyddiaeth ac adfer natur. Er enghraifft:
 - a. Hybu ymgom y staff ar fyw a gweithio'n gynaliadwy a pha mor fforddiadwy ydy hyn
 - b. Galluogi gostyngiad pellach sylweddol o ran ôl troed cymudo'r staff
 - c. Dileu a gwahardd pob defnydd o gynwysyddion plastig untro ar gyfer bwyd a diod gan gynnwys poteli llaeth
 - d. Codi ymwybyddiaeth am ôl troed ecolegol a charbon o ran bwyd, diod, ynni, teithio, hamdden a dillad.
13. Isafu a ble bynnag y bo'n bosibl dileu effeithiau amgylcheddol croes drwy ein polisiâu caffael.
14. Adolygu ein hangen i deithio ac uchafu effeithlonrwydd ynni, waeth beth yw'r gost, pan a phryd y bo'r angen i ni deithio.